Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

ASGHAR, MOHAMMAD ('Oscar') (1945 - 2020), cyfrifydd a gwleidydd

Enw: Mohammad ('oscar') Asghar
Dyddiad geni: 1945
Dyddiad marw: 2020
Priod: Firdaus Asghar
Plentyn: Natasha Asghar
Rhiant: Zubaida Aslam
Rhiant: Aslam Khan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfrifydd a gwleidydd
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Diwydiant a Busnes
Awdur: Matthew W. Day

Ganwyd Mohammad Asghar, a adwaenid fel Oscar, ar 30 Medi 1945 yn Peshawar, Talaith Goror y Gogledd Orllewin, India Brydeinig, fel yr oedd yr adeg honno, Khyber-Pakhtunkhwa, Pacistan bellach, mewn teulu Mwslemaidd, yn fab i Aslam Khan a'i wraig Zubaida Aslam. Medrai Urdu, Hindi a Punjabi. Enillodd radd BA mewn Gwyddoniaeth Wleidyddol ym Mhrifysgol Peshawar cyn symud i Loegr i wneud MBA ac wedyn i Gymru i gwblhau cwrs cyfrifeg yng Nghasnewydd. Bu'n gweithio mewn amryw gwmnïau cyfrifwyr, gan gynnwys R. J. Minty Chartered Accountants yng Nghasnewydd o 1972 cyn sefydlu ei gwmni ei hun yn 1983.

Priododd Firdaus yn 1983, a ganwyd merch iddynt, Natasha, yn Hydref 1983. Etholwyd Natasha Asghar i'r Senedd yn aelod Ceidwadol dros Dde-ddwyrain Cymru yn 2021. Yn fabolgampwr brwd a redodd gyda'r fflam Olympaidd yn 1964, roedd Mohammad Asghar yn hoff o griced yn enwedig. Ymgyrchodd dros gael tîm criced i Gymru a cheisiodd gychwyn tîm yn y Senedd.

Dechreuodd Mohammad Asghar ei yrfa wleidyddol yn aelod o'r Blaid Geidwadol am ddau ddegawd o'r 1970au hyd y 1990au, pan drodd at y Blaid Lafur. Daeth yn gynghorydd Mwslemaidd cyntaf Casnewydd yn 2004, ac wedyn ymunodd â Phlaid Cymru, penderfyniad a oedd yn syndod i lawer gan fod ei safbwynt unoliaethol yn groes i bolisi Plaid Cymru o annibyniaeth i Gymru. Dywedodd Asghar ei hun ar goedd fod y cynnig o brofiad gwaith i'w ferch gan ASE Jill Evans yn ddylanwad ar ei benderfyniad. Pan etholwyd ef ym Mai 2007 i gynrychioli Plaid Cymru dros Dde-ddwyrain Cymru ef oedd yr aelod cyntaf o'r Senedd o leiafrif ethnig. Yn 2009 croesodd y llawr i ailymuno â'r Blaid Geidwadol gan ddatgan ei fod 'out of tune' â Phlaid Cymru ac yn teimlo fel 'a little parrot in a jungle'. Yn etholiadau'r Senedd yn 2011 fe'i hetholwyd dros y Blaid Geidwadol.

Daeth Asghar yn Weinidog yr Wrthblaid dros Gydraddoldeb a Chwaraeon 2011-2018, ac wedyn yn Weinidog yr Wrthblaid dros Addysg Bellach, Ffydd a Sgiliau 2018-2020. Bu'n aelod hefyd o sawl pwyllgor, gan gynnwys y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2007-2020, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau 2019, a Phwyllgor yr Economi, Isadeiledd a Sgiliau. Yn 2018, bu'n gadeirydd Cyfeillion Ceidwadol India a hefyd Cyfeillion Ceidwadol Pacistan. Rhoddodd lawer o'i amser yn ogystal i hyrwyddo cysylltiadau â gwledydd eraill y gymanwlad trwy Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Roedd yn gefnogol iawn i integreiddio cymdeithasol a gweithiodd i dorri i lawr y gwahanfuriau rhwng amryw grefyddau a chymunedau.

Bu Mohammad Asghar farw'n sydyn ar 16 Mehefin 2020 ar ôl cael ei ruthro i'r ysbyty. Cynhaliwyd ei angladd ym Mosg Canolog Casnewydd ar 25 Mehefin.

Awdur

Matthew W. Day

Ffynonellau

'Asghar, Mohammad', Who's Who, 1 Rhagfyr 2020

'A tribute to Mohammad Asghar MS', Ceidwadwyr Cymreig, 17 Mehefin 2020

'Mohammad Asghar', Senedd Cymru

WalesOnline, 8 a 13 Rhagfyr 2009

Western Mail, 16 Mehefin 2020

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Mohammad Asghar

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3404581

Dyddiad cyhoeddi: 2024-12-03

Hawlfraint Erthygl: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

×

Day, M. W., (2024). ASGHAR, MOHAMMAD ('Oscar') (1945 - 2020), cyfrifydd a gwleidydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 6 Maw 2025, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c15-ASGH-MOH-1945

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGEL
THE NATI

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government